CROESO I

Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro

Cardiff and Vale
University Health Board

Cynnwys

Cyflwyniad 2

Rhagair gan Rachel Gidman 3

Trosolwg 4

Ein Strategaeth 4

Ein Partneriaethau 4

Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiasdau 5

#CAVYOURSAY - gwrando ar ein staff 5

F2SU - Rhyddid i Leisio Barn yn Ddiogel, Mae Eich Llais o Bwys 5

Cynhwysiant 6

Iechyd a Lles 7

Buddion i Staff 7

Hafanau Staff 8

Coleg Adfer a Lles 8

Meithinfeydd a Gofal Plant 9

Addysg a Datblygiad 10

Arfarniadau 10

Hyfforddiant Cynefino a Gorfodol 10

Addysg Glinigol 11

Rhaglenni Arweinyddiaeth a Rheolaeth 12

Yr Academi Prentisiaeth 13

Cynllun hyfforddi i raddedigion 14

Addysg Feddygol 14

Addysg ar gyfer Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol 15

Y Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr 16

Aelodau Undeb Llafur a Gweithio mewn Partneriaeth 17

Meddwl Cymraeg - Think Welsh 17

Buddiannau Craidd 18

Cynaliadwyedd 19

Bioamrywiaeth 19

Defnydd o ynni ac archwilio dewisiadau ynni isel amgen 19

Mesurau lleihau gwastraff ac ailgylchu 19

Ymrwymiad i Deithio Llesol 19

Diolch am ystyried Caerdydd a'r Fro ar gyfer cam nesaf eich gyrfa. Rydym yn falch iawn o fod yn lle gwych i hyfforddi, byw a gweithio, ac mae cynhwysiant, lles a datblygu wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae gan Gaerdydd, prifddinas ffyniannus Cymru, rywbeth i'w gynnig i bawb. Mae'n ddinas wych i fyw a gweithio gyda chysylltiadau cyfathrebu arbennig, economi gref a sector addysg trydyddol deinamig. Mae'n ganolbwynt Llywodraeth Cymru ac yn cynnig llwyth o atyniadau chwaraeon, celfyddydau a diwylliannol.

Wedi'i leoli i'r gorllewin o Gaerdydd, mae Bro Morgannwg yn cynnig cyfuniad o gefn gwlad hardd Cymru ac arfordir naturiol dramatig, gan gynnwys yr enwog Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

Fel sefydliad rydym yn ddiedifar uchelgeisiol dros iechyd ein poblogaeth, gan ymateb i heriau heddiw ac yfory drwy ein strategaeth 10 mlynedd, Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol. Rydym yn cyfrannu at Gymru iachach, gyda phwyslais mawr ar arloesi a gwella, gan ddysgu oddi wrth eraill ledled y byd ac arwain y ffordd mewn ymchwil glinigol. Mae gwaith partneriaeth yn gadarn yng Nghaerdydd a'r Fro, ac rydym yn gweithio'n agos gyda'n staff a'n cymuned. Rydym yn dysgu oddi wrth ein harweinwyr yn Sefydliad Calon y Ddraig ac yn eu datblygu, ac rydym yn canolbwyntio ar y dyfodol, gan ailddylunio ein gwasanaethau a'n safleoedd i ddiwallu anghenion poblogaeth yfory.

Os hoffech wybod mwy amdanom ni a'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i'n staff, parhewch i ddarllen...Diolch yn fawr.

R. Gidman

Rachel Gidman

Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant



Trosolwg

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ein nod yw gofalu am bobl a'u cadw'n iach. Rydym yn cyflogi dros 14,500 o staff ac yn darparu gwasanaethau iechyd a lles i gyfanswm poblogaeth o oddeutu 475,000 sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae ein poblogaeth leol yn tyfu'n gyflym, a rhagwelir mai Caerdydd fydd y ddinas sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain dros yr 20 mlynedd nesaf.

Ymhlith ein gwasanaethau mae swyddogaethau hybu iechyd ac iechyd y cyhoedd, yn ogystal â darparu gwasanaethau gofal sylfaenol lleol a chynnal ysbytai, canolfannau iechyd, timau iechyd cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl. Rydym yn gweithio'n agos gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill ar draws De Cymru, yn ogystal â'n partneriaid lleol a thrydydd sector, i ddarparu ystod lawn o wasanaethau iechyd i'n preswylwyr lleol ac i bobl eraill y tu hwnt sy'n defnyddio ein gwasanaethau arbenigol.

Ein Strategaeth

Mae 'Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol 2015-25' yn disgrifio sut rydym yn ceisio cyflawni ein gweledigaeth i sicrhau bod siawns unigolyn o gael bywyd iach yr un peth waeth ble mae'n byw neu pwy ydyw. Yr hyn sydd wrth wraidd ein strategaeth yw'r dyhead i gyflawni gofal cydgysylltiedig, yn seiliedig ar rymuso'r unigolyn, cartref yn gyntaf, darparu canlyniadau sydd o bwys i bobl, ac osgoi niwed, gwastraff ac amrywiaeth. Mae Caerdydd a'r Fro yn arwain y ffordd yng Nghymru o ran ein dull o drawsnewid gwasanaethau a'r gofal a gynigiwn i'n cleifion, drwy weithio mewn cynghrair dysgu a rennir gyda Bwrdd Iechyd Canterbury yn Seland Newydd.

Ein Partneriaethau

Fel ysbyty addysgu prifysgol, rydym yn falch o fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer dysgu a datblygu mewn meddygaeth, ymchwil ac arloesi clinigol. Mae gennym gysylltiadau cryf â'n partneriaid academaidd ac ymchwil, Deoniaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda dau Awdurdod Lleol, Caerdydd a Bro Morgannwg, fel rhan or Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae pwyslais mawr iawn ar gydweithio a chydgynhyrchu gyda sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Rydym yn cyflogi dros 14,500 o staff ac yn darparu gwasanaethau iechyd a lles i gyfanswm poblogaeth o oddeutu 475,000 sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg



Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiadau

Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi sicrhau bod cleifion, eu teuluoedd, a staff clinigol ac anghlinigol yn rhan o greu fframwaith ymddygiadol i wireddu ein gwerthoedd. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau y caiff yr ymddygiadau hyn eu hintegreiddio yn holl brosesau'r gweithlu, gan gynnwys recriwtio, hyrwyddo, arfarniadau, cynefino a rheoli perfformiad.

Caredig a gofalgar

Dangos parch

Ymddiriedaeth ac uniondeb

Cyfrifoldeb personol

#CAVYOURSAY - gwrando ar ein staff

Yng Nghaerdydd a'r Fro rydyn yn ymrwymedig i wella'n dulliau ymgysylltu â staff, a chydnabuwn fod staff sydd wedi'u cynnwys yn fwy cynhyrchiol, bodlon ac yn fwy tebygol o aros gyda'r BIP. Mae hyn yn golygu bod cael barn staff a helpu rheolwyr i gael sgyrsiau ystyrlon â staff/timau i gael gwybodaeth sydd sy'n bwysig iddynt, ac archwilio datrysiadau posibl, yn flaenoriaeth i ni.

F2SU - Rhyddid i Leisio Barn yn Ddiogel, Mae Eich Llais o Bwys

Mae pawb yn haeddu rhyddid i leisio barn yn ddiogel. Mae diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a staff bob amser wedi bod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro. Rydym yn ymrwymedig i feithrin diwylliant o fod yn agored ar draws pob rhan o'r sefydliad, er mwyn eich cefnogi a'ch annog i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod gennych, gan fod yn sicr y byddwch yn cael eich trin â pharch ac urddas pan fyddwch yn gwneud hynny.

Cafodd y fenter Rhyddid i Leisio Barn ei chychwyn er mwyn creu amgylchedd sy'n galluogi ac yn grymuso staff i godi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt, neu bryderon y maent yn arsylwi arnynt yn eu maes gwaith, ac i hysbysu'r corff neu'r awdurdod perthnasol, gan wybod y bydd camau'n cael eu cymryd o ganlyniad.



Cynhwysiant

Rydym yn byw mewn cymuned amrywiol, ac er mwyn ei gefnogi rydym am ddarparu diwylliant o gynhwysiant.

"Yn y bwrdd iechyd, gwyddwn fod ein staff yn perfformio'n well pan allant fod yn nhw eu hunain. Fel cyflogwr, rydym am feithrin diwylliant o dderbyn heb eithriad. Mae cael a buddsoddi mewn grŵp staff amrywiol yn ein galluogi i fod yn sefydliad mwy cynhwysol a gwella gofal cleifion.

I ni ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae cynhwysiant yn ymwneud â chreu cymdeithas decach ble mae gan bawb y cyfle i gyflawni eu potensial. Mae'n ymwneud â chydnabod, gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau yn ei ystyr ehangaf. Mae cynhwysiant yn ymwneud â phrofiad unigolyn o fewn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach".

Keithley Wilkinson, Rheolwr Cydraddoldeb

I gefnogi hyn mae gennym y canlynol ...

- Rhwydwaith LGBTQ+ sy'n anelu at wneud materion LGBTQ+ yn fwy gweladwy o fewn yr amgylchedd gwaith, gan fod yn adnodd cynhwysol ar gyfer pob cyflogai ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd
- Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol
- Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall
- Rhwydwaith staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Polisi ar gyfer cefnogi staff Traws
- Canllawiau Cefnogi Gofalwyr
- Rydym yn gweithio gyda DFN Project Search, rhaglen sy'n darparu hyfforddiant cyflogadwyedd i bobl ifanc sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.

yn cefnogi AGE POSITIVE

Prentisiaethau Apprenticeships

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Egwyddorion Craidd Core Principles

Stonewall Hyrwyddwr Amrywiaeth Diversity Champion CYMRU

MINDFUL EMPLOYER

Meddwl Think Cymraeg Welsh

Armed Forces Covenant Cyfamod Y Lluoedd Arfog



Iechyd a Lles

Rydym yn frwdfrydig dros greu amgylchedd gwaith hapus ac iach, ac rydym am helpu staff i wella eu lles corfforol ac emosiynol a'u helpu i ddilyn ffordd o fyw iach. Er mwyn gofalu am eraill, mae'n bwysig bod staff yn rhoi amser i ofalu am eu hunain.

"Ein gweledigaeth yn y Gwasanaeth Iechyd a Lles Cyflogeion yw bod pob cyflogai yn cael ei werthfawrogi a'i alluogi i gynnal ei iechyd a'i les yn y gweithle".

Nicky Bevan, Pennaeth Gwasanaethau Iechyd a Lles Cyflogeion

Mae gennym ystod o fuddiannau ar gael i gefnogi iechyd a lles staff yn cynnwys:

Y Gwasanaeth Lles Gweithwyr

Rydym yma i'ch helpu i gael y cymorth sydd ei angen arnoch. Rydym yn cynnig Apwyntiad Adnoddau cychwynnol sy'n gyfle i chi ddod i siarad am unrhyw fater neu sefyllfa, sy'n ymwneud â'r cartref neu'r gwaith.

Cwnsela

Rydym yn cynnig 6 sesiwn o gwnsela penodedig cryno. Gall cwnsela roi cyfle i chi archwilio rhai o'r pethau sy'n peri anhawster i chi yn eich bywyd, a hynny mewn ffordd ddiogel, nad yw'n barnu.

Hunangymorth dan arweiniad

Therapi cryno, nad yw'n rhy ddwys, sy'n seiliedig ar egwyddorion Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT), sy'n anelu at helpu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol.

Sesiynau holi ac ateb

Rydym yn cynnig sesiynau holi ac ateb i reolwyr i gael help a chefnogaeth ar gyfer eu meysydd. Yn seiliedig ar ein thema fisol, rydym yn cynnig gweithdai a gweithdai parhaus ar Dosturi a Hunanofal; Pendantrwydd ac Asesiad Risg Staff i Reolwyr.

Iechyd Galwedigaethol

Yn darparu gwasanaeth cyfrinachol i'r holl staff ac yn darparu cyngor arbenigol ar iechyd galwedigaethol i reolwyr.

Adnoddau ac arweiniad iechyd meddwl

Rydym yn cynnig ystod o adnoddau gan gynnwys cylchlythyrau, pecynnau adnoddau, sianel You Tube ac mae gennym rhestr o adnoddau a chyfeiriadau defnyddiol ar ein gwefan EWS.

Hyfforddiant Hyrwyddwr Lles

Rydym yn darparu hyfforddiant a chymorth parhaus i staff sydd am hyfforddi fel hyrwyddwr lles ar gyfer eu maes, ac yn cynnig cymorth lles a chyfeirio.

Caffis Menopos

Rydym yn cynnig Caffis Menopos sy'n lle i chi allu dod at eich gilydd gyda chydweithwyr (mae croeso i bawb) i archwilio sut y gallai'r menopos fod yn effeithio arnoch chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod.

Y Gwasanaeth Ffisiotherapi i Staff

Gall bob aelod o staff hunanatgyfeirio at y Gwasanaeth Ffisiotherapi i Staff i gael help cynnar gydag unrhyw broblemau cyhyrysgerbydol.

Cyngor ar faeth a deieteg

Hunanatgyfeiriad at Ddeietegydd i gael cyngor ar fwyta'n iach a'i effaith ar gyflyrau gastroberfeddol.

Seiclo i'r Gwaith

Gall staff gael beic ac ategolion drwy gynllun aberthu cyflog.



Iechyd a Lles

"Pan oeddwn i'n ei chael yn anodd dod i delerau â chael diagnosis o gyflwr iechyd a allai newid fy mywyd, ni wyddwn ble i droi. Roeddwn bob amser wedi bod yn ddyn heini a gweithgar a oedd wrth ei fodd â rygbi, ond pan gefais y newyddion hwn, teimlais yn unig ac yn ofnus. Cefais amser i ffwrdd o'r gwaith, nad oedd yn rhywbeth yr oeddwn byth yn ei wneud, ond roedd y ffrindiau a oedd gennyf yn y gwaith a'r rheolwr cefnogol wedi gwneud byd o wahaniaeth. Roedd pobl yn cysylltu â fi i ofyn a oeddwn i am gael sgwrs dros goffi - roedd hynny'n golygu cymaint i fi. Rwy'n dysgu sut i reoli fy salwch nawr, ond heb y gofal diffuant a gefais gan fy nghydweithwyr a'm rheolwr, credaf y byddwn wedi'i chael yn anodd gwybod ble i droi".

Gareth, Saer Coed

"Gall gweithio mewn amgylchedd acíwt ac ar batrwm sifft gael effaith arnoch yn gorfforol ac yn emosiynol. Dyna pam dwi bob amser wedi teimlo ei bod yn bwysig gofalu am eich hun ac eraill yn ogystal â'ch cleifion. Gyda chymorth fy rheolwr, gallwn ddod yn hyrwyddwr lles a rhoi newidiadau ar waith fel arwyddion a chyngor yn yr ystafell staff, yn ogystal â bwrdd canmol staff i gydnabod gwaith caled aelodau o staff ar y ward".

Rhiannon, Dirprwy Reolwr Ward

Hafanau Staff

Gwnaeth elusen gysylltiedig y Bwrdd Iechyd, Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ariannu 3 Hafan i Staff yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Adain Glan-y-Llyn. Mae'r mannau hyn yn cynnig gwagle digynnwrf a thawel i'n staff, i ffwrdd o'u hardal glinigol, er mwyn ymlacio yn ystod eu hegwyliau.

Coleg Adfer a Lles

Mae Coleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro yn darparu cyrsiau am ddim ar ystod o bynciau iechyd meddwl a lles, sydd ar gael i holl staff BIP Caerdydd a'r Fro (yn ogystal â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ar hyn o bryd, neu wedi gwneud yn y gorffennol, eu gofalwyr, neu unigolion sy'n gweithio'n y maes iechyd meddwl). Caiff yr holl gyrsiau a ddarperir eu cynhyrchu ar y cyd gan bobl sydd â phrofiad personol o broblemau a gwasanaethau iechyd meddwl, ochr yn ochr â gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol. Mae'r Coleg yn dilyn egwyddorion adfer a chyd-gynhyrchu, ac mae'n canolbwyntio ar yr elfen addysgiadol, ynghyd â hyrwyddo lles, ac mae wedi cael adborth gwych gan ei fyfyrwyr yn gyson. Mae croeso i staff y Bwrdd Iechyd gofrestru fel myfyrwyr ar gyrsiau a fydd yn digwydd ar-lein neu yn bersonol mewn lleoliadau ar draws Caerdydd a'r Fro lle gellir cadw pellter cymdeithasol. Ceir prospectws yma: https://cavuhb.nhs.wales/files/recovery-wellbeing-college/summer-term-prospectus-2021/

TALK

Rydym yn cefnogi amser i newid Cymru

MENOPAUSE cafe

Caerdydd a'r Fro Coleg Adfer a Lles

Dychwelyd i'r dudalen gynnwys

Meithrinfeydd a Gofal Plant

Mae gan y BIP feithrinfeydd dydd gofal plant ar safleoedd YAC ac YALl.

Gofal plant proffesiynol

Mae'r tîm o staff a rheolwyr sy'n gweithio yn ein meithrinfeydd wedi'u dewis yn ofalus i ddarparu gofal o'r safon uchaf i fabanod a phlant hyd at 5 mlwydd oed. Maent yn dîm ymroddedig sy'n ymrwymedig i feithrin a gofalu am blant mewn amgylchedd diogel, ysgogol.

Datblygiad Plant

Rydym yn anelu at ddarparu cyfleoedd dysgu cyffrous a phrofiadau chwarae symbylol mewn ffordd hwylus, liwgar a diogel lle mae pob plentyn yn arbennig.

Ein safleoedd

Mae ein safleoedd yn llachar a lliwgar. Defnyddir y waliau i arddangos gwaith celf a wnaed gan y plant, ac mae gennym ardaloedd chwarae caeedig yn yr awyr agored hefyd, lle caiff y plant eu goruchwylio ar bob adeg.

Siaradwch â ni a dewch i edrych o gwmpas

Mae dewis meithrinfa ar gyfer eich plentyn yn benderfyniad pwysig, yn enwedig pan fyddwch yn gadael eich plentyn i dderbyn gofal gan rywun arall am y tro cyntaf.

Bydd ein rheolwyr a staff ymroddedig yn hapus i siarad â chi ac ateb unrhyw gwestiynau y gallai fod gennych.

I gael rhagor o wybodaeth neu i drefnu ymweliad ffoniwch:
Meithrinfa YAC 02921 842550 neu **Meithrinfa YALl 02921 825697**

Gallwch hefyd anfon e-bost at Suzanne Toft, Uwch-reolwyr Gofal Plant ar:
Suzanne.Toft@Wales.NHS.UK

I gael gwybodaeth am yr opsiynau ariannu gofal plant sydd ar gael ewch i'n gwefan.

Addysg a Datblygiad

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn sefydliad sy'n hyrwyddo'r ffaith ei fod yn 'Lle Gwych i Weithio a Dysgu.'

Fel ysbyty addysgu, sydd â chysylltiadau cadarn â phrifysgolion lleol a darparwyr addysg, rydym yn ymrwymedig i roi'r cyfle i'n staff ddatblygu a dysgu drwy gydol eu gyrfa.

Rydym yn cynnig ystod eang o gyfleoedd addysgol a datblygu, gan gynnwys hyfforddiant seiliedig ar sgiliau a dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod staff ar bob lefel yn datblygu'n barhaus.

Lle bo'n bosibl, mae'r dysgu yn rhyngbroffesiynol er mwyn galluogi ein staff i ddysgu gyda chydweithwyr clinigol ac anghlinigol. Mae hyn yn ein helpu i hwyluso diwylliant o weithio mewn tîm a chydweithio'n effeithiol, lle caiff cyfraniad pob aelod o staff ei werthfawrogi a'i gydnabod.

Arfarniadau

Mae ein Harfarniad seiliedig ar Werthoedd wedi'i gynllunio i gefnogi ac annog staff i gyrraedd eu potensial ac mae'n anelu at ddatblygu staff cryf eu cymhelliant, sy'n cyfrannu'n llawn, gan roi'r sgiliau a'r hyder iddynt gyflawni ein gwerthoedd bob dydd. Mae arfarniad yn sgwrs benodedig sy'n cwmpasu'r datblygiad sydd ei angen arnoch, y gwerth a gyflwynir gennych a'r swydd sy'n gweddu orau i'ch sgiliau nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r broses Ailddilysu yn cefnogi staff meddygol i ddatblygu eu hymarfer, yn hyrwyddo gwelliannau mewn llywodraethu clinigol ac yn rhoi hyder i gleifion eu bod yn ymwybodol o'r diweddaraf yn eu maes. Nid yw ailddilysu yn un digwyddiad, a chaiff ei ategu gan y broses arfarnu flynyddol, a ddylai fod yn rhan ganolog o ddatblygiad a dysgu personol a phroffesiynol meddyg.

Hyfforddiant Cynefino a Gorfodol

Fel cyflogai byddwch yn cael proses gynefino gynhwysfawr a throsolwg o'r sefydliad, a fydd yn eich galluogi i weld sut rydych yn perthyn i'r darlun mwy. Yn ogystal â hyn, byddwch yn cyflawni proses gynefino yn eich gweithle a'ch amgylchedd gwaith.

Addysg Glinigol

Rydym yn cynnwys amrywiaeth eang o raglenni **hyfforddiant sgiliau clinigol** ar gyfer staff cofrestredig a rhai nad ydynt yn gofrestredig. Caiff yr holl gyrsiau eu darparu gan hwyluswyr profiadol o bractisau clinigol sydd â gwybodaeth arbenigol wedi'i diweddaru. Ceir gwybodaeth am ein holl gyrsiau yn y prospectws LED (Dysgu, Addysg a Datblygu)

Mae ein tîm **Addysg Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd** (HCSW) yn darparu cyfleoedd addysg ar gyfer dysgu ar draws pob proffesiwn ac yn cefnogi HCSW i ddatblygu'n unol â Fframwaith Gyrfa a Sgiliau Cymru Gyfan. Yn 2020 gwnaeth ein carfan gyntaf o HCSW a oedd yn dilyn llwybr hyblyg i nyrsio gwblhau eu hyfforddiant ac ymuno â ni fel nyrsys cofrestredig.

Mae darparu **Rhaglenni Tiwtoriaeth / Sylfaen i Hyfforddeion**, sy'n sicrhau lefelau uchel o gymorth i'n staff clinigol yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y swydd, yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r rhaglenni cefnogol hyn ar waith ar draws yr holl grwpiau proffesiynol.

Mae ein **Canolfan Addysg Nyrsys Tramor** yn cefnogi nyrsys rhyngwladol i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ac ymuno â'r BIP fel nyrsys cofrestredig. Mae tîm addysg penodedig yn darparu rhaglen paratoi OSCE sydd â chyfradd lwyddo 100%. Mae ein rhaglen ar agor i nyrsys rhyngwladol sydd wedi llwyddo yn eu profion Saesneg ac NMC cyfrifiadurol ac sydd am ddod i weithio gyda ni.

Mae timau addysg lleol yn parhau i gefnogi ein nyrsys tramor gyda'u hymarfer. Ar ôl OSCE mae nyrsys yn mynychu rhaglenni hyfforddiant sgiliau hanfodol ac addysg arbenigol sy'n eu helpu i addasu i rôl nyrs gofrestredig yn y DU.

Rhaglenni Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gennym gyfres o gyfleoedd datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer staff y BIP ar bob lefel.

CAMAU CYNTAF I REOLI - I helpu goruchwylwyr newydd a phresennol i ddatblygu sgiliau goruchwylio a rheoli allweddol.

SGILIAU RHEOLI HANFODOL - ar gyfer darpar reolwyr a rheolwyr presennol er mwyn iddynt ddatblygu'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol gan bob reolwr.

ARFARNIAD EFFEITHIOL - i reolwyr a goruchwylwyr baratoi a chynnal cyfarfodydd un i un, arfarniadau a chyfarfodydd eraill gyda thimau.

RECRIWTIO YN SEILIEDIG AR WERTHOEDD - i gefnogi'r sawl sy'n recriwtio i baratoi strwythur cyfweliad a chwestiynau ynghylch gwerthoedd y sefydliad.

SGILIAU HYFFORDDI AR GYFER RHEOLWYR - darganfyddwch sut i ddefnyddio arddull hyfforddi sy'n gofyn y cwestiynau iawn, er mwyn galluogi eich tîm i fod yn rhagweithiol ac annibynnol.

SGILIAU HYFFORDDI YCHWANEGOL - i bobl sy'n gweithio mewn rolau arwain, rheoli a goruchwylio i ddatblygu sgiliau a fydd yn galluogi cyfathrebu gydag urddas a pharch.

RHAGLEN UWCH-ARWEINWYR - ar gyfer Uwch-arweinwyr yn y sefydliad sy'n arwain tîm neu wasanaethau.

DEALL FY ARDDULL ARWAIN PERSONOL - rhoi cymorth a her i arweinwyr i wella myfyrio personol a dysgu.



"Mae'n sicr wedi newid sut dwi'n ystyried fy swydd yn gyfan gwbl. Mae'r newidiadau i fi wedi ymwneud â thrawsnewid y dysgu yn gamau ymarferol".

Ian, Uwch Nyrs

"Mae ei hyder wedi cynyddu'n sylweddol, sy'n bositif iawn, ac mae ei allu i gyfathrebu â'r staff, yn broffesiynol, yn well o lawer erbyn hyn".

Stuart, Rheolwr, Arweinydd Tîm yn yr adran Cyfleusterau

"Rhoddodd y rhaglen y sgiliau a'r offer i fi allu [...] symud ymlaen a chredu ynof fy hyn a chynyddu fy hyder".

Emma, Rheolwr Gwasanaeth Clinigol

Dychwelyd i'r dudalen gynnwys

Yr Academi Prentisiaeth

Rydym am ddarparu cyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau, profiad, addysg a'u cymwysterau drwy ddysgu a gweithio yn y swydd. Mae prentisiaethau yn ffordd o gyflawni hyn - ar gyfer staff presennol ac unigolion a gaiff eu recriwtio'n uniongyrchol fel prentisiaid.

Mae prentisiaethau ar gael mewn ystod o bynciau yn cynnwys:

- Arweinyddiaeth a Rheolaeth ILM
- Cymorth Gofal Iechyd Clinigol
- Gwyddor Gofal Iechyd
- Dadansoddeg Data
- CIPD (Adnoddau Dynol)
- Gwybodeg Iechyd
- Gweinyddu Busnes
- Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad
- Rheoli Prosiectau

"Mae gwneud prentisiaeth ochr yn ochr â'm rôl wedi fy helpu i gymhwyso'r hyn rwy'n dysgu mewn ffordd fwy uniongyrchol ac ymarferol. Mae gweld sut mae'r sgiliau hynny yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol yn helpu i ddatblygu fy nealltwriaeth".

Chris, Prentisiaeth Lefel 3

Mae'r rôl Prentisiaeth wedi fy ngalluogi i gael cipolwg ar y GIG fel sefydliad gyda chefnogaeth glir ac anogaeth gan fy Nhîm, ac mae hyn wedi fy helpu i ddatblygu fy hyder a'm sgiliau trwy gael hyfforddiant yn y swydd. Mae'r rôl wedi sbarduno fy ngyrfa yn y GIG drwy fy hyfforddi i'r safonau sydd yn ddisgwyliedig o fewn y sefydliad a thrwy osod targedau personol fel NVQ Gweinyddu Busnes Lefel 2 a gwblheais o fewn fy swydd 12 mis. Bydd hyn yn fy ngalluogi i ddatblygu ymhellach o fewn y GIG ac rydw i bellach yn gobeithio anelu at NVQ Lefel 3".

Tommos, Prentis Gweinyddu Busnes, Addysg Feddygol.

The Cardiff Commitment
Addewid Caerdydd

Cynllun hyfforddi i raddedigion

Mae gennym Gynllun dwy flynedd i Raddedigion sy'n rhan hanfodol o'n strategaeth rheoli talent i greu cenhedlaeth newydd o ddarpar arweinwyr yn y GIG, ac sy'n galluogi hyfforddeion i gwblhau Gradd Meistr wedi'i hariannu'n llawn.

Ar ddiwedd y cwrs gallant weithio mewn tri lleoliad gwaith strwythuredig yn y meysydd Acíwt, Gofal Sylfaenol a Rheolaeth Gorfforaethol. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Graddedigion yn cael cipolwg manwl yn fuan ar drefniadau cymhleth sefydliad mawr ac yn cael profiad dysgu ymarferol a heriol.

Addysg Feddygol

Addysgu i Israddedigion

Caiff lleoliadau clinigol ac addysg eu darparu a'u cefnogi ar gyfer myfyrwyr meddygol o Ysgolion Meddygol Prifysgol Caerdydd ac Abertawe.

Hyfforddiant ôl-raddedig

Caiff hyfforddiant ôl-raddedig a chymorth eu darparu gan Dîm Cyfadran penodedig sy'n gweithio'n agos gydag Addysg a Gwella lechyd Cymru (AaGIC) i sicrhau rhaglenni hyfforddi o safon ar gyfer meddygon iau dan hyfforddiant.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD)

Caiff cymorth parhaus a rhaglenni CPD eu darparu ar gyfer yr holl staff meddygol mewn rolau hyfforddiant a rhai nad ydynt yn ymwneud â hyfforddiant.

Sgiliau Clinigol ac Efelychu:

Mae'r Tîm Sgiliau Clinigol ac Efelychu yn darparu addysg a chymorth mewn amgylchedd diogel a phenodedig efelychiadol, sy'n hygyrch i'r tîm amlddisgyblaethol cyfan (MDT).

Addysg ar gyfer Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol

Addysgu i Israddedigion

Mae'r BIP yn darparu lleoliadau clinigol israddedig ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd proffesiynol.

Hyfforddiant ôl-raddedig

Mae cydweithredu agos a pharhaus gyda Phrifysgolion a sefydliadau yng Nghymru yn rhoi cyfleoedd ar gyfer gwella ansawdd, archwilio, datblygu gwasanaethau ac ymchwil drwy gydol eich gyrfa.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD)

Caiff cymorth parhaus a rhaglenni CPD eu darparu ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Sgiliau Clinigol ac Efelychu

Addysg a chymorth mewn amgylchedd diogel a phenodedig efelychiadol, sy'n hygyrch i'r tîm amlddisgyblaethol cyfan (MDT).



Y Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr

Ers y cychwyn mae'r BIP wedi bod ar reng flaen y Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr, gan ddarparu un llwybr ymgeisio a recriwtio i fyfyrwyr ar draws Cymru. Nid oes angen i Fyfyrwyr Nyrsio a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd a graddedigion Gwyddor Gofal Iechyd gyflwyno sawl cais mwyach i sicrhau eu swydd gyntaf yn y BIP ar ôl graddio.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag AaGIC, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Abertawe i ddenu myfyrwyr uchel eu cymhelliant i ymgymryd â'u rôl gyntaf fel person cofrestredig. Rydym yn manteisio ar bob cyfle i ymgysylltu â myfyrwyr cyn iddynt ymuno â'r cynllun drwy ymweld â'r Prifysgolion, cynnal diwrnodau agored a defnydd eang o'r cyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn denu mwy o fyfyrwyr o'r cynllun nag unrhyw Fwrdd Iechyd arall. Mae cleifion, myfyrwyr a phroffesiynau eraill yn elwa ar gael y myfyrwyr iawn, gyda'r gwerthoedd iawn a'r sgiliau iawn i'r meysydd sydd â swyddi gwag ar yr adeg iawn. Rydym yn darparu cyfleoedd ychwanegol i fyfyrwyr aros a gweithio yng Nghymru pan fyddant yn graddio, ac yn creu amgylchedd lle mae myfyrwyr yn teimlo wedi'u halinio â'n gwasanaethau.

Rydym yn denu mwy o fyfyrwyr o'r cynllun nag unrhyw Fwrdd Iechyd arall.

Aelodau Undeb Llafur a Gweithio mewn Partneriaeth

Gellir ond cyflawni ein hamcan o ddarparu gwasanaethau o'r safon uchaf posibl drwy sicrhau gweithlu sydd â'r sgiliau digonol, yn ymrwymedig ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. I sicrhau gwaith partneriaeth llwyddiannus, mae'n bwysig datblygu cysylltiadau gwaith ffurfiol ac anffurfiol da, sy'n meithrin ymddiriedaeth ac yn rhannu cyfrifoldeb, gan barchu gwahaniaethau ar yr un pryd.

Mae gan Undebau Llafur rôl bwysig i'w chwarae wrth barchu staff yn unigol ac ar y cyd, ac rydym yn annog ein staff i ymuno ag Undeb Llafur, sefydliad staff neu sefydliad proffesiynol cydnabyddedig.

Caiff dull y BIP o weithio mewn partneriaeth ei ategu gan ein gwerthoedd a'n hymddygiadau cytûn.

"Mae ymrwymiad i atgyfnerthu'r dull partneriaeth cymdeithasol yma yng Nghymru, felly nawr yw'r adeg berffaith i fod yn rhan o'r gymuned staff sy'n tyfu ac YMUNO AG UNDEB LLAFUR HEDDIW. Mae Undebau yn hyrwyddo cyflog gwell, yn amddiffyn eich hawliau yn y gwaith, yn sicrhau bod eich amodau gwaith yn ddiogel, ac yn eich cynrychioli, yn rhoi arweiniad i chi, cymorth cyfreithiol os bydd ei angen, a llawer, llawer mwy."

Dawn Ward, Cadeirydd Cynrychiolwyr Staff

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i
https://cavuhb.nhs.wales/staff-information/your-employment/trade-unions

Meddwl Cymraeg - Think Welsh

Mae'r gymuned Gymraeg yn BIP Caerdydd a'r Fro yn tyfu ac yn ffynnu ac rydym yn anelu at ddod yn sefydliad cwbl ddwyieithog yn y dyfodol agos.

Rydym yn croesawu, yn cefnogi ac yn annog unigolion i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith ac yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr a'r sawl sy'n ceisio gwella eu Cymraeg. Mae'r ymgyrch Meddwl Cymraeg - Think Welsh yn annog staff i ystyried sut y gellir ymgorffori'r Gymraeg yn eu rolau bob dydd.

"Rwy'n cyfarfod â llawer o bobl bob dydd yn fy rôl sy'n siarad Cymraeg ac wedyn daeth y cyfle gan yr ymgyrch Meddwl Cymraeg - Think Welsh. Ac roedd yn ymddangos fel y cyfle perffaith i ddechrau dysgu. Rwy'n falch o ddweud fy mod yn dysgu iaith arall, yn enwedig un sy'n gallu cael budd positif ar fy ngwaith a'r staff a'r cleifion y byddaf yn delio â hwy. Byddwn yn annog cymaint o bobl â phosibl i ddefnyddio hyd yn oed ychydig bach o Gymraeg, am ei fod yn cael effaith wych ar yr holl gleifion y darparwn wasanaeth ar eu cyfer".

Ellis, Crefftwr Mecanyddol

"Fel Bwrdd Iechyd rydym yn falch o hyrwyddo'r Gymraeg. Mae gennym lawer o siaradwyr Cymraeg ar draws y BIP sy'n ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd yn ddyddiol, ac mae gallu cyfathrebu mewn iaith sy'n gwneud i'r cleifion hynny deimlo'n gyfforddus yn wych".

Abigail Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol a Hyrwyddwr y Gymraeg y Bwrdd

Buddiannau Craidd

BUDDIANNAU CRAIDD yw'r rhai y gallwch eu mwynhau yn syml am eich bod yn gweithio i BIP Caerdydd a'r Fro.

Mae gan holl staff y BIP becyn gwyliau blynyddol â thâl hael, sy'n cynyddu gyda hyd gwasanaeth. Mae'n rhan bwysig o'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac mae'n cefnogi eich lles corfforol, cymdeithasol a seicolegol.

Gallech hefyd brynu 1 neu 2 wythnos o Wyliau Blynyddol Ychwanegol a lledaenu'r gost dros y flwyddyn. Rhaid i'ch rheolwr sicrhau nad yw'n peryglu ein gofal i gleifion na'n costio mwy o arian i'r BIP.

Gall staff â phlant gymryd hyd at 4 wythnos o absenoldeb rhieni di-dâl y flwyddyn i'w helpu i ofalu am les eu plant. Gallai hyn gynnwys eu helpu i ymgartrefu mewn ysgol/trefniadau gofal plant newydd, ymweld â mam-gu a thad-cu neu yn syml i dreulio mwy o amser gyda'ch gilydd. Fel arfer caiff absenoldeb rhieni ei gymryd mewn blociau o wythnosau cyflawn.

Mae'r Weithdrefn Gweithio Hyblyg yn cynnwys arferion gweithio hyblyg mwy traddodiadol megis gwaith rhan-amser, oriau wedi'u cywasgu, amser hyblyg ac ati. Mae gan yr holl staff sydd wedi cyflawni dros 26 wythnos o wasanaeth yr hawl i wneud cais am weithio hyblyg a rhaid i'ch rheolwr roi ystyriaeth o ddifrif i'ch cais. Os na allant ganiatáu'r cais rhaid iddynt ysgrifennu atoch yn egluro pam.

Gwyddom fod adegau pan mae'n anodd cydbwyso galwadau cyfrifoldebau'r cartref a'r gwaith. Diben y Polisi Absenoldeb Arbennig yw cefnogi staff pan fydd angen brys neu angen nas rhagwelir, drwy eu galluogi i gymryd absenoldeb ychwanegol.

Pan fyddwch yn ymuno â'r BIP cewch eich cofrestru'n awtomatig ar y Cynllun Pensiwn (oni fyddwch yn dewis optio allan). Mae hwn yn fudd pwysig a gwerthfawr oherwydd, yn ogystal â'r cyfraniadau a wnewch at y cynllun o'ch cyflog eich hun, mae'r BIP hefyd yn cyfrannu at eich pensiwn. Ar eich ymddeoliad, bydd y Cynllun Pensiwn yn rhoi pensiwn blynyddol i chi a chyfandaliad di-dreth (os bydd yn ofynnol). Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi yswiriant bywyd i chi, buddiannau i'r teulu, a buddiannau sy'n gysylltiedig ag ymddeoliad cynnar gwirfoddol, ymddeoliad oherwydd salwch a cholli swydd.

Cynaliadwyedd

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro, mae cynaliadwyedd yn allweddol i sicrhau y gallwn barhau i ddarparu canlyniadau gofal iechyd sy'n bwysig heddiw ac yn y dyfodol.

Mae ein hagenda cynaliadwyedd yn cynnwys:

Bioamrywiaeth

Mae gennym Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth i'n helpu i gyflawni ein cyfrifoldebau amgylcheddol. Rydym yn datblygu perllan ar safle YALl a chychod gwenyn yn YAC ac YALl. Rydym hefyd yn datblygu mannau gwyrdd ar ein safleoedd eraill.

Defnydd o ynni ac archwilio dewisiadau ynni isel amgen

Gorsaf gwres a phŵer cyfunedig Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC) yw'r mwyaf erioed i gael ei gosod gan y GIG yng Nghymru, ac mae'n cynhyrchu 60% o anghenion YAC. Mae'r holl drydan a brynir gan y BIP yn adnewyddadwy.

Mesurau lleihau gwastraff ac ailgylchu

Mae gennym strategaeth dim gwastraff i safleoedd tirlenwi, ac rydym yn ceisio gwella ein gweithgarwch ailgylchu yn barhaus. Mae gwastraff na ellir ei ailgylchu o'n caffis Aroma yn mynd i gyfleuster adfer ynni.

Ymrwymiad i Deithio Llesol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu cynllun Parcio a Theithio a gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â dolenni i'r wybodaeth ddiweddaraf am deithio a'r tywydd yn yr ardal leol. Mae Cynllun Seiclo i'r Gwaith yn annog aelodau staff ymhellach i fabwysiadu dulliau teithio llesol. Mae gennym fws gwennol rhwng Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau, sy'n galluogi staff i osgoi cymudo yn eu cerbydau eu hunain rhwng safleoedd.